CYNGOR TREF RHUTHUN
RUTHIN TOWN COUNCIL

Cofnodion cyfarfod y **Pwyllgor Cynllunio a Datblygu** a gynhalwyd drwy ffyrf hybrid **nos Lun, 11 o Ebrill 2022** am **7:00yh**

YN BRESENNOL: Cynghorwyr Heather Williams (Cadeirydd), Robert Owen-Ellis, Jabez Redfern Oakes a Menna Jones

198. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB
Cynghorwyr IfanWyn ac Ethan Jones.

199. DATGAN BUDDIANNAU
Dim

200. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL
Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 7 o Fawrth 2022 yn gywir.
PENDERFYNWYD: *bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 7 o Fawrth 2022 yn cael eu cadarnhau.*

201. MATERION YN CODI
Dim.

202. PENDERFYNIADAU CYNLLUNIO
Roedd Clerc y Dref wedi dosbarthu penderfyniadau cynllunio diweddar a benderfynwyd gan Gyngor Sir Ddinbych gyda'r agenda.
PENDERFYNWYD: *nodwyd y penderfyniadau cynllunio diweddar a benderfynwyd gan Gyngor Sir Dinbych.*

203. CEISIADAU CYNLLUNIO
Trafododd y Pwyllgor y ceisiadau a ganlyn am ganiatâd cynllunio a gyflwynwyd gan Gyngor Sir Ddinbych ar gyfer sylwadau.
PENDERFYNWYD*: bod ymateb y Pwyllgor i'r ceisiadau fel a ganlyn:*

PENDERFYNWYD: *nad oedd gwrthwynebiad i'r ceisiadau a ganlyn:*

Nodwyd bod penderfyniad wedi'i wneud ar y cais hwn:
02/2022/0198 45 Bryn Rhydd, Ruthin
Codi estyniad a newidiadau a thrawsnewid y garej bresennol

Nid oedd gwrthwynebiad i'r ceisiadau a ganlyn:
02/2022/0209 Record Cottage, Record Street, Ruthin
Gosod inswleiddiad wal allanol a rendro ochr / cefn yr annedd.

02/2022/0232 Hunter Tarmac, Hen Lon Parcwr, Ruthin
Codi estyniad i adeilad swyddfa a gwaith cysylltiedig.

02/2022/0283 Jones Bros, Brickfield Lane, Ruthin
Codi estyniad, codi canopi a newidiadau allanol i'r adeilad presennol.

02/2022/0086 Tir yn (Rhan o ardd) 149 Mwrog Street, Ruthin
Datblygu 0.09ha o dir trwy godi annedd a garej ar wahân (cais amlinellol gan gynnwys mynediad).

02/2022/0318 Tir yn (Rhan o ardd) Llys Gwyn, Bryn Goodman, Ruthin
Codi 2 fyngalo ar wahân a gwaith cysylltiedig

02/2021/1182 15A Well Street, , Ruthin
Gosod pibell nwy a bocs mesurydd (tu mewn).

204. DIWEDDARIAD - CYNLLUN DATBLYGU LLEOL SIR DDINBYCH 2018-2033
Nododd yr Aelodau y diweddariad a dderbynwyd yngylch Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) newydd Sir Ddinbych. Mynegwyd y farn ei bod yn hanfodol bod y CDLl newydd yn cael ei flaenoriaethu gan y Cyngor Sir.
PENDERFYNWYD: *nodi'r diweddariad a bod y Clerc yn ysgrifennu at Gyngor Sir Ddinbych i fynegi barn y Pwyllgor y dylai'r CDLl newydd gael ei flaenoriaethu gan y Cyngor Sir.*

205. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF
PENDERFYNWYD*: mai nos Fawrth, 3 o Fai am 7.00pm y cynhelir y cyfarfod nesaf.*